
**Rhif**: **5.6**

**Rhif y Cais / Application Number : C16-0246-33-LL**

**Cynllun lleoliad ar gyfer adnabod y safle yn unig. Dim i raddfa.**
**Location Plan for identification purposes only. Not to scale.**



**Rhif**: **5.6**

| | |
|---|---|
| Cais Rhif: | C16/0246/33/LL |
| Dyddiad Cofrestru: | 14/03/2016 |
| Math y Cais*:* | Llawn - Cynllunio |
| Cymuned*:* | Buan |
| Ward: | Efailnewydd/Buan |

| | |
|---|---|
| Bwriad: | NEWID DEFNYDD CYN EGLWYS YN UNED GWYLIAU |
| Lleoliad: | EGLWYS SANT CEIDIO, CEIDIO, PWLLHELI, GWYNEDD LL53 8UH |

**Crynodeb o'r Argymhelliad:** DIRPRWYO'R HAWL I GANIATAU

**1. Disgrifiad:**

1.1 Mae'r cais hwn yn gais llawn i addasu cyn eglwys yn uned gwyliau. Mae'r eglwys yn wag ers peth amser ac eisoes wedi newid dwylo o berchnogaeth yr Eglwys yng Nghymru i berchnogaeth breifat. Prif elfennau'r bwriad yw addasu'r adeilad sydd mewn cyflwr da i uned gwyliau. Byddai llawr newydd yn cael ei osod o fewn yr adeilad a fydd yn ymestyn tri chwarter y ffordd uwchben hyd yr arwynebedd llawr mewnol a gadael y brif ffenestr ar ddangos. Bwriedir gosod y gegin a'r ystafell fyw ar y llawr gwaelod, gydag un ystafell wely, baddondy a chwpwrdd dillad ar y llawr cyntaf. Yn allanol, bwriedir gosod 6 ffenestr to newydd a fydd o fath cadwraethol ynghyd a ffliw ar yr edrychiad cefn er gwasanaethu tan glo.

1.2 Saif y safle yng nghefn gwlad agored ac o fewn Ardal Gwarchod y Tirlun. Mae ffordd dosbarth 3 yn rhedeg ger y safle ynghyd a llwybr cyhoeddus. Mae'r adeilad yn rhestredig gradd II.

**2. Polisïau Perthnasol:**

2.1 Mae Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ceisiadau yn unol â'r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaeth faterol cynllunio yn nodi fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys Polisi Cynllunio Cenedlaethol, a'r Cynllun Datblygu Unedol.

2.2 Yn sgil Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 mae'n ofynnol i'r Cyngor ymgymryd â datblygu cynaliadwy yn ogystal â chymryd pob cam rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i gyflawni'r amcanion datblygu cynaliadwy (neu lesiant). Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu cynaliadwy', fel sydd wedi'i ddatgan yn Neddf 2015, ac wrth ffurfio'r argymhelliad mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau. Ystyrir na fyddai unrhyw effaith sylweddol nac annerbyniol ar gyflawni'r amcanion llesiant o ganlyniad i'r argymhelliad arfaethedig.

2.3 **Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd 2009:**

B2 - GWNEUD NEWIDIADAU I ADEILADAU RHESTREDIG NEU ADEILADAU YN EU CWRTILAU - Sicrhau nad yw cynigion yn achosi niwed arwyddocaol i gymeriad pensaernïol neu hanesyddol arbennig Adeiladau Rhestredig.

B3 - DATBLYGIADAU SY'N EFFEITHIO AR OSODIAD ADEILAD RHESTREDIG - Sicrhau nad yw cynigion yn cael effaith ar osodiad adeiladau

rhestredig oni bai eu bod yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf sydd yn anelu i warchod cymeriad arbennig yr Adeilad Rhestredig a'r amgylchedd lleol.

B7 - SAFLEOEDD O BWYSIGRWYDD ARCHEOLEGOL - Gwrthod cynigion fydd yn difrodi neu ddifetha gweddillion archeolegol o bwysigrwydd cenedlaethol (boed yn rhai cofrestredig ai peidio)neu eu gosodiad. Gwrthodir hefyd datblygiad fydd yn effeithio ar weddillion archeolegol eraill oni bai bod yr angen am y datblygiad yn drech nag arwyddocâd y gweddillion archeolegol.

B10 - DIOGELU A CHYFOETHOGI ARDALOEDD GWARCHOD Y DIRWEDD - Yn diogelu a chyfoethogi Ardaloedd Gwarchod y Tirlun drwy sicrhau fod yn rhaid i gynigion gydymffurfio â chyfres o feini prawf sydd yn anelu i osgoi niwed arwyddocaol i nodweddion cydnabyddedig.

B20 - RHYWOGAETHAU A'U CYNEFINOEDD SY'N BWYSIG YN RHYNGWLADOL A CHENEDLAETHOL - Gwrthod cynigion sy'n debygol o achosi aflonyddwch neu niwed annerbyniol i rywogaethau a warchodir a'u cynefinoedd oni bai y gellid cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu i ddiogelu nodweddion cydnabyddedig y safle.

B22 - DYLUNIAD ADEILADAU - Hyrwyddo dyluniad adeiladau da drwy sicrhau fod cynigion yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu i ddiogelu nodweddion a chymeriad cydnabyddedig y dirwedd a'r amgylchedd leol.

B23 – MWYNDERAU - Diogelu mwynderau'r gymdogaeth leol drwy sicrhau bod rhaid i gynigion gydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu i warchod nodweddion cydnabyddedig mwynderau'r ardal leol.

B24 - GWNEUD NEWIDIADAU AC YMESTYN ADEILAD O FEWN FFINIAU DATBLYGU, PENTREFI GWLEDIG A CHEFN GWLAD - Sicrhau fod cynigion i wneud newidiadau neu ymestyn adeilad yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu i ddiogelu cymeriad a gwerth mwynderol yr ardal leol.

B25 - DEUNYDDIAU ADEILADU - Gwarchod cymeriad gweledol trwy sicrhau fod yn rhaid i ddeunyddiau adeiladu fod o safon uchel sy'n gweddu i gymeriad ac edrychiad yr ardal leol.

C4 - ADDASU ADEILADAU I'W HAIL-DDEFNYDDIO - Cymeradwyir cynigion i addasu adeiladau i'w hailddefnyddio yn lle eu dymchwel os gellir cydymffurfio gyda meini prawf penodol. Mae'r rhain yn ymwneud ag addasrwydd yr adeilad ar gyfer y defnydd arfaethedig, ystyriaethau gweledol a bod y dyluniad yn parchu yr adeilad gwreiddiol a'r ardal o'i gwmpas. Dylai adeiladau yng nghefn gwlad fod yn rhai parhaol a strwythurol gadarn. Dylid gallu eu haddasu heb waith ailadeiladu sylweddol. Ni ddylent ychwaith wasgaru gweithgareddau ar raddfa a fyddai'n niweidio bywiogrwydd trefi a phentrefi.

CH22 - RHWYDWAITH BEICIO, LLWYBRAU A HAWLIAU TRAMWY - Gwarchodir a hyrwyddir pob rhan o'r rhwydwaith beicio, llwybrau a hawliau tramwy trwy asesu unrhyw gynnig a fydd yn torri ar eu traws gan geisio eu hymgorffori yn foddhaol o fewn y datblygiad. Os na fydd hyn yn bosib bydd yn rhaid gwneud darpariaeth briodol i wyro'r llwybr neu i ddarparu llwybr newydd boddhaol. Fe wrthodir cynigion yn ogystal sy'n debygol o wahardd cynllluniau i ymestyn y rhwydwaith beicio, llwybrau a hawliau tramwy oni bai y gellir darparu llwybr addas arall.

CH30 - MYNEDIAD I BAWB - Gwrthod cynigion ar gyfer unedau preswyl/busnes/diwydiant neu adeiladau/cyfleusterau at ddefnydd cyhoeddus os na ellir dangos y rhoddwyd ystyriaeth lawn i ddarparu mynediad priodol i'r ystod ehangaf posib o unigolion.

CH36 - CYFLEUSTERAU PARCIO CEIR PREIFAT - Gwrthodir cynigion am ddatblygiadau newydd, i ehangu datblygiadau presennol neu newid defnydd os na ddarperir lle i barcio cerbydau oddi ar y stryd yn unol â chanllawiau parcio cyfredol y Cyngor. Rhoddir ystyriaeth i hygyrchedd gwasanaeth cludiant cyhoeddus, y gallu i gerdded a beicio o safle a phellter y safle at faes parcio cyhoeddus. Os oes angen lle i barcio oddi ar y stryd ac nad yw'r datblygwr yn cynnig cyfleusterau parcio ar y safle neu na ellir manteisio ar y ddarpariaeth barcio presennol, caniateir cynigion os bydd y datblygwyr yn cyfrannu at y gost o wella hygyrchedd y safle neu ddarparu'r llefydd parcio angenrheidiol ar safle arall gerllaw.

D15 - LLETY GWYLIAU HUNAN-WASANAETH - Cymeradwyo cynigion i ddatblygu llety gwyliau hunanwasanaeth parhaol newydd, neu i addasu adeiladau presennol neu i estyn sefydliadau presennol os yw dyluniad, gosodiad a gwedd y datblygiad o safon uchel ac os gellir cydymffurfio gyda meini prawf yn ymwneud gyda lleoliad a graddfa y datblygiad, colli stoc o dai parhaol; ardaloedd preswyl a grynhoad o'r math yma o lety gwyliau.

Canllawiau Cynllunio Atodol: Llety Gwyliau

2.4 **Polisïau Cenedlaethol:**

Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 8, Ionawr 2016) Pennod 6: Gwarchod yr Amgylchedd Hanesyddol

Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio 2016

## 3. Hanes Cynllunio Perthnasol:

3.1 9900089LBC13 – Cyfaddasu Eglwys yn dy – Gwrthod – 23-4-1998

9900088FUL13 – Cyfaddasu Eglwys yn dy – Gwrthod – 19-2-1999

9700228LBC13 – Cyfaddasu Eglwys segur yn dy ac adeiladu porth – Gwrthod – 24-7-1997

9700227FUL13 – Cyfaddasu Eglwys segur yn dy ac adeiladu porth – Gwrthod – 16-7-1997

## 4. Ymgynghoriadau:

| | |
| --- | --- |
| Cyngor Cymuned/Tref: | Heb eu derbyn |
| Uned Drafnidiaeth: | Dim gwrthwynebiad. Tybir fod y lefel traffig a ddisgwylir mewn cysylltiad ac uned gwyliau yn debygol o fod yn isel, ac yn annhebyg o gael effaith andwyol ar y rhwydwaith ffyrdd lleol. Tybi'r hefyd y fod lle digonol o fewn y cwrtil i droi a pharcio cerbydau heb gael unrhyw effaith ar y briffordd gyfagos. |

Uned Llwybrau: Dim gwrthwynebiad.

Dwr Cymru: Heb eu derbyn

Uned Bioamrywiaeth: Mae'r adroddiad ystlumod a gyflwynwyd gyda'r cais yn datgan tystiolaeth fod ystlumod yn defnyddio'r adeilad fel clwydfan mamolaeth. Nid oes sôn yn yr ystlumod fodd bynnag am adar ac efallai fod adar yn defnyddio'r adeilad. Awgrymir cael clwydfan o fewn y to ac felly mae angen cynlluniau diwygiedig yn dangos hyn. Pe bai'r cynlluniau diwygiedig yn dderbyniol gall gynnig amodau perthnasol.

Cyfoeth Naturiol Cymru: Nodi'r o'r cais fod ystlumod yn bresennol o fewn yr adeilad ac bydd angen trwydded i ymgymryd a'r gwaith. Fodd bynnag, gan fod y mater yn risg isel, ni chredir y byddai'r bwriad yn debygol o gael effaith andwyol ar y boblogaeth o ystlumod ac i gynnig amod unol a'r adroddiad a chael trwydded berthnasol.

Nid oes unrhyw sylwadau i'w cynnig parthed materion carthion.

Gwarchod y Cyhoedd: Heb eu derbyn

Gwasanaeth Cynllunio Archaeolegol Gwynedd: Credir y byddai'r bwriad yn debygol o gael effaith archeolegol. Mae'r dyluniad i weld yn sympathetig o agwedd yr addasiad, ond mae angen mwy o fanylder ar rhai achosion:

- Manylion ynysu'r llawr a tho
- Manylion draeniad a gwasanaethau
- Manylion gosod y llawr cyntaf a'r grisiau
- Unrhyw waith strwythurol arall
- Unrhyw waith atgyweirio mewnol
- Angen cadarnhad hefyd o faint o waith ar goed y to a fwriedir

Yr Eglwys yng Nghymru: Derbyniwyd sylwadau gan yr Eglwys yng Nghymru sef cyn berchnogion yr Eglwys ac sydd wedi cadw perchnogaeth y fynwent. Nid oes gwrthwynebiad i'r bwriad o osod gwasanaethau i'r adeilad ar hyd y llwybr, a chynghorir iddo gael ei wneud o dan oruchwyliaeth archeolegydd. Yn yr achos yma mae'r Eglwys yng Nghymru dal yn berchen y fynwent ac mae'r rheolaeth a chynhaliaeth y fynwent o fewn gofal yr ardal offeiriadaeth leol Bro Madryn ac felly byddai'r fynwent yn parhau i fod yn agored i'r cyhoedd. Rhaid cadw mewn cof fodd bynnag, yr Eglwys yng Nghymru sydd gyda'r cyfrifoldeb cyffredinol am y fynwent, ond mae'r berchnogaeth a rhwymedigaeth pob bedd uniongyrchol gyda'r perthynas agosaf, ac felly mae perchnogion nad yw yn gwarchod ei beddi yn cynyddu'r baich cynhaliaeth ar adnoddau'r plwyfi lleol. Os oes gwrthwynebiadau wedi derbyn i'r bwriad, efallai ei fod yn syniad i godi ffens o amgylch yr Eglwys neu ar hyd y llwybr, ond teimlir y byddai hyn yn cael effaith ar osodiad yr Eglwys. Mae'r Eglwys yng Nghymru yn ddibynnol yn fawr ar y plwyfi i wirfoddoli eu

hamser i gynnal a chadw adeiladau'r Eglwys a'r mynwentydd. Gyda chynulleidfa yn lleihau ynghyd a'r adnoddau, mae dyfodol rheoli'r mynwentydd yn fwy dibynnol ar y defnydd o'r llecynnau agored hyn fel ardaloedd amwynder i'r cyhoedd, a ble bosib rydym yn annog pobl, yn cynnwys plant i edrych ar fynwentydd fel ardaloedd cymunedol. Nid oes angen ar yr Eglwys yng Nghymru o Eglwysi gwag, a rhaid annog cymunedau i gefnogi ailddatblygiad sensitif ble mae'n bosib. Ni fydd yr adeiladau hyn yn ail agor i addoli, ac felly rhaid cael defnydd arall er mwyn cadw tirlun hanesyddol yr ardal.

Ymgynghoriad Cyhoeddus: Rhoddwyd rhybudd ar y safle, yn y wasg ac fe wybyddwyd trigolion cyfagos. Mae'r cyfnod hysbysebu wedi dod i ben a derbyniwyd sawl gwrthwynebiad ar sail cynllunio:

- Teulu wedi claddu o fewn y fynwent ac ni ddylir addasu'r Eglwys na'r fynwent.
- Ystyrir y byddai'r bwriad yn rhwystro mynediad i'r beddi teuluol er mwyn eu cynnal a chadw.
- Materion carthion a'r effaith ar y beddi gerllaw
- nodweddion yr Eglwys gradd II a'r "lychgate" angen eu gwarchod i'r dyfodol
- ystlumod sydd yn defnyddio'r eglwys angen eu gwarchod
- Diffyg son am y llwybr cyhoeddus o fewn y cais a'r fynwent a sut y byddai'r bwriad yn amharu ar rhain

Derbyniwyd hefyd wrthwynebiadau nad oeddent yn faterion cynllunio perthnasol:

- Byddai gosod tŷ wyliau / codi tŷ newydd ar y llecyn yn ymyrryd/aflonyddu'r beddi teuluol
- Ni fydd unrhyw o'r cerrig beddi yn cael eu symud neu yn cael eu rhoi ar wastad fel rhan o'r datblygiad

Yn ogystal, derbyniwyd llythyrau yn cefnogi'r bwriad mewn egwyddor ond angen cadarnhad am rhai elfennau o'r bwriad (wedi eu nodi uchod).

## 5. Asesiad o'r ystyriaethau cynllunio perthnasol:

### 5.1 Egwyddor y datblygiad

Dywed Polisi C4 o'r CDUG gellir addasu adeiladau presennol a'u hail defnyddio os yw'r bwriad yn cydymffurfio a meini prawf fel addasrwydd yr adeilad, bod y dyluniad yn parchu strwythur, ffurf a chymeriad yr adeilad gwreiddiol ac na fydd yn cael effaith andwyol ar fwynderau cyffredinol yr ardal. Mae'r bwriad, ar sail ei leoliad, graddfa a deunydd yn dderbyniol ac mae'n adeilad weddol fychan ble gellir ei addasu yn eithaf hawdd heb amharu ar ei gymeriad yn ormodol. Mae'r bwriad hefyd yn fodd i warchod adeilad rhestredig sydd yn segur ac yn sicrhau ei ddefnydd i'r dyfodol. Mae polisi D15 sy'n ymwneud gyda llety gwyliau hunan-wasanaeth yn datgan rhaid i'r bwriad gyfarfod y meini prawf perthnasol o fewn y polisi ac sy'n

cynnwys addasu adeilad presennol, dyluniad a safon uchel y datblygiad. Yn yr achos yma ystyrir bod y bwriad yn dderbyniol o safbwynt polisi D15 a'r CCA Llety Gwyliau gan fod y datblygiad o safon uchel ac yn gwneud defnydd economaidd o adeilad presennol segur yng nghefn gwlad. Credir na fydd y newid defnydd hwn yn amharu'n andwyol ar osodiad na chymeriad yr adeilad rhestredig gan gymryd i ystyriaeth bod yr adeilad wedi bod yn wag ers amser maith a bod y bwriad yma yn fodd o sicrhau dyfodol yr adeilad heb fawr o newid iddo. Ystyrir felly fod y bwriad yn dderbyniol o safbwynt egwyddor a'i fod yn unol gyda pholisiau C4, D15 a B3 o'r CDU. Mae cais adeilad rhestredig hefyd wedi ei gofrestru ar wahan er mwy asesu yr agweddau penodol hynny o'r bwriad.

**5.2 Dyluniad a mwynderau**

Mae'r bwriad yn bennaf yn golygu adfer yr adeilad drwy waith cynnal a chadw. Bydd yn golygu gwaith gosod ffenestri to newydd, gosod gwydrau eilradd os bydd angen ynghyd a drws blaen newydd o'r union ddyluniad a maint a'r presennol ac ail bwyntio'r adeilad. Mae'r bwriad hefyd yn golygu gosod llawr cyntaf newydd yn fewnol a fydd yn ymestyn tri chwarter y ffordd uwchben hyd yr arwynebedd llawr a gadael y brif ffenestr ar ddangos. Mae'r gwaith yn golygu adfer yr adeilad yn bennaf ac oherwydd lleoliad agored cefn gwlad y safle ni ystyrir y byddai'r bwriad yn amharu ar fwynderau'r safle na'r ardal. Mae'r safle hefyd wedi ei leoli o fewn Ardal Gwarchod y Tirlun ac ni ystyrir y byddai addasu'r adeilad yn debygol o amharu ar gymeriad yr ardal hon. Yn ddarostyngedig i amodau perthnasol ystyrir fod y bwriad yn dderbyniol o agwedd polisïau B10, B22, B23, B24 a B25 o'r CDU.

**5.3** Bwriedir hefyd cysylltu'r adeilad gyda dŵr a'r tanc septig presennol drwy waith tyllu ar y llwybr presennol. Mae'r Gwasanaeth Cynllunio Archeoloegol Gwynedd yn gofyn am fwy o fanylion parthed y gwaith carthion a gwasanaethau eraill er mwyn gallu cynghori ymhellach. Mae'r llwybr presennol yn arwain o'r brif fynedfa i ddrws yr Eglwys, ble nad oes unrhyw feddi. Bwriedir tyllu'r llwybr er mwyn gosod y gwasanaethau priodol, o dan oruchwyliaeth archeolegydd. Gofynnir am y manylion hyn gan yr Asiant ac ystyrir y gallai fod yn dderbyniol mewn egwyddor o agwedd polisi B7 CDUG ond yn ddibynnol ar y manylion hyn ac amodau perthnasol.

**5.4 Materion priffyrdd**

Nid oes gan yr Uned Priffyrdd unrhyw wrthwynebiad i'r bwriad gan fod digon o lefydd parcio o fewn cwrtil yr eiddo gerllaw i allu parcio a throi cerbydau. Ni ystyrir felly y byddai'r bwriad yn debygol o amharu ar y rhwydwaith ffyrdd ac fod y bwriad felly yn unol â pholisi CH36 CDUG. Nid oes unrhyw wrthwynebiad wedi derbyn gan yr Uned Llwybrau gan ni fydd y bwriad yn debygol o amharu ar y llwybr gerllaw ac ystyrir ei fod yn unol â gofynion polisi CH22 CDUG.

**5.5 Materion Bioamrywiaeth**

Mae adroddiad ystlumod wedi cyflwyno gyda'r cais yn datgan fod ystlumod yn bresennol o fewn yr adeilad. Mae'r Uned Bioamrywiaeth yn nodi y bydd angen cyflwyno cynlluniau diwygiedig yn dangos y clwydfan o fewn y to er mwyn cadarnhau os yw yn dderbyniol er mwyn gallu cynnig amodau perthnasol. Rhagwelir fod modd gwneud hyn mewn ffordd derbyniol. Ystyrir felly pe bai'r Uned Bioamrywiaeth yn derbyn y cynlluniau diwygiedig fel a nodir uchod y byddai'n dderbyniol o agwedd polisi B20 CDUG ac hefyd gofynion Cyfoeth Naturiol Cymru.

**5.6 Yr ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus**

Mae peth pryder yn bodoli ynglŷn â'r ffaith mai Eglwys yw hon yng nghanol mynwent ac os bydd y bwriad yn amharu ar hyn, a hefyd pe bai mynediad i'r fynwent yn parhau. Fel y soniwyd eisoes, yr Eglwys yng Nghymru oedd berchen y safle yn ei gyfanrwydd, ond erbyn hyn ond y fynwent sy'n parhau i fod o fewn eu perchnogaeth hwy, a bydd gofyn fod mynediad i'r cyhoedd i'r fynwent yn parhau. Mae pryder hefyd at newid defnydd yr Eglwys i dy, rhaid pwysleisio mai uned wyliau sydd dan sylw ac nid tŷ parhaol na thŷ newydd ac felly nid yw'r gwrthwynebiadau yma yn ystyriaeth yn yr achos hwn.

## 6. Casgliadau:

6.1 Mae'r egwyddor o ddefnyddio'r Eglwys fel uned gwyliau yn dderbyniol ac yn sgil derbyn y mwy o fanylder am rai agweddau o'r bwriad ystyrir fod y bwriad yn dderbyniol a'i fod yn fodd i sicrhau defnydd hir dymor i'r adeilad rhestredig yma sydd fel arall am ddirywio a sefyll yn wag.

**7. Argymhelliad -** Dirprwyo'r hawl i'r Uwch Reolwr Cynllunio i ganiatáu'r cais yn ddarostyngedig i dderbyn cynlluniau diwygiedig yn dangos y glwydfan ystlumod ac i dderbyn sylwadau ffarfiol yr Uned Bioamrywiaeth i'r cynlluniau hynny, manylion derbyniol parthed dull gosod y ffenestri to newydd, dull gosod y llawr cyntaf newydd, manylion darparu/gosod y gwasanaethau i'r adeilad a gosod y ffenestri eilradd ac i amodau perthnasol yn ymwneud â:

1. 5 mlynedd
2. Unol a'r cynlluniau a'r argymhellion yn yr adroddiad ystlumod
3. Amodau yn ymwneud a'r llawr cyntaf
4. Amodau yn ymwneud a gwaith ar y to
5. Drws newydd o wneuthuriad pren
6. Y drws gwreiddiol i'w gadw o fewn/neu yn ran o'r adeilad bob amser
7. Amodau yn ymwneud a'r gwydriad eilradd
8. Gwaith rendr a phlaster gyda calch
9. Rhaid cadw rhai o'r seddi gwreiddiol o fewn yr adeilad bob amser (i'w gytuno gyda'r ACLL cyn dechrau gwaith)
10. Amodau yn ymwneud a gwaith archeolegol
11. Cofnod ffotograffig
12. Amodau ystlumod
13. Gwyliau yn unig/cadw cofrestr